**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC-02-03(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Chwefror 2003 | |
| **Amser:** | 14.00pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd | |
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Elin Jones | Ceredigion |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Steve Martin | Prif Weithredwr, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (CCCAH) |
| | Richard Hirst | Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (CCCAH) |
| | **Swyddogion:** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Ceri Thomas | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| | Olga Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

<u>**14.00 - 14.02**</u>

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alison Halford,

Alun Cairns a Jocelyn Davies. Cymerodd Elin Jones le Jocelyn Davies fel eilydd.

1.2. Datganodd Val Lloyd AC fuddiant mewn perthynas ag Eitem 2 ar yr agenda, am ei bod, cyn ymuno â'r Cynulliad ym mis Hydref 2002, wedi bod yn un o lywodraethwyr Coleg Abertawe. Nododd yr aelodau'r datganiad ac roeddent yn hapus i barhau â'r cyfarfod.

**14.02 - 14.07**

**Eitem 2**

**Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru**

**Papur: AC 02-03(p1)**

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Mr Steve Martin a Mr Richard Hirst o Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru'.

**14.07 - 16.19 (Egwyl: 15.20 - 15.39)**

**Eitem 2 (Parhad)**

**Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru**

2.2 Ceir trawsgript gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad A y cofnodion.

**Pwyntiau Gweithredu**

- ☐ Cytunwyd y darperir nodyn yn rhoi manylion unrhyw drafodaeth a gafodd bwrdd Cyngor Cyffredinol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar "Rheoli Ystâd Addysg Bellach yng Nghymru".
- ☐ Cytunwyd y dylid darparu crynodeb yn nodi sut y bydd system ariannu a chynllunio newydd ELWa yn gweithredu.
- ☐ Cytunwyd y byddai'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Ymgynghorwyr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, GVA Gimley, ar gael i Gyngor Cyffredinol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.
- ☐ Cytunwyd y byddai Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn ystyried a fyddai am ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cymharu'r dangosyddion a ddefnyddir yn addysg uwch a'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer addysg bellach.

**16.19 -17.21**

**Eitem 3**

**Papurau i'w nodi**

**Papur: AC 02-03(p2)** - Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor, sef 'Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru'

**Papur: AC 02-03(p3)** Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, sef 'Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru'

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn, roi sylwadau ar ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru'. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr ymateb yn bositif ac y byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn monitro i sicrhau bod y Llywodraeth yn gwireddu'r argymhellion.

3.2 Croesawodd y Pwyllgor yr ymateb hefyd gan gymeradwyo'r camau i'w cymryd.

**16.21 – 16.22**

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Ionawr.

**16.22 – 16.25**

**Eitem 5**

**SESIWN BREIFAT**

**Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor ac adroddiad drafft diwedd y sesiwn**

**Papur:**AC 02-03(p4)

5.1 Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn iddo ystyried ei adroddiadau drafft ar yr ymchwiliad uchod, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

*5.2 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft.*

*5.3 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor yn cael ei gynnal ar 27 Mawrth ac y byddai'n dechrau am 9:00.*

1. *Daeth y cyfarfod i ben am 4.25pm.*

*Cliciwch fan hyn ar gyfer y sesiwn tystiolaeth*